

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn trwy cyfrwng fideo, Dydd Iau, 27 Ionawr 2022 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Hugh Irving (Is-gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray, Pete Prendergast, Arwel Roberts (Cadeirydd), Peter Scott ac Andrew Thomas

Aelodau Cabinet – y Cynghorwyr Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth), Huw Hilditch-Roberts (Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd), Brian Jones (Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd), Tony Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau) a Mark Young (Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel)

Arsyllwyr – y Cynghorwyr Meirick Davies, Rhys Thomas, Graham Timms ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid (LG), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL), Uwchswyddog Cynllunio Strategol a Thai (JA), Rheolwr Datblygu Tai (MD), Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD), Rheolwr Gweithrediadau'r Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol (NJ), Pen Llyfrgellydd (BH), Pen Rheolwr Arlwygo a Glanhau (HJ), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ a SJ [gwe-ddarlledwr])

Aelodau o'r Cyhoedd – bu myfyrwyr Ysgol Dinas Brân yn bresennol ar gyfer eitem 7 ar y rhaglen

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Martyn Holland

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

Hysbyswyd yr aelodau na fyddai bod yn llywodraethwr ysgol yn eu hatal rhag cymryd rhan yn eitem 7 ar raglen y cyfarfod.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021.

Materion yn Codi – Cyfeiriodd y Cydlynnydd Craffu at y wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd yn unol â chais y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch ymwybyddiaeth o ddementia a hyfforddiant gofal a fu'n rhan o Friff Gwybodaeth y Pwyllgor a rannwyd â'r aelodau'n gynharach yn yr wythnos.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 a'u cymeradwyo fel rhai cywir.

5 CYNNYDD AR GYFLAWNI STRATEGAETH DAI A DIGARTREFEDD SIR DDINBYCH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau a Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, a rannai'r cyfrifoldeb am gyflawni'r Strategaeth Tai a Digartrefedd. Roedd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymunedau, y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai, yr Uwchswyddog Cynllunio Strategol a Thai a'r Rheolwr Datblygu Tai hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) ynglŷn â'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth gyflawni'r Strategaeth Tai a Digartrefedd ddiwygiedig a'r Cynllun Gweithredu a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir fis Rhagfyr 2020. Roedd y Strategaeth yn cynnwys chwech o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu ar sail chwech o brif themâu, ac roedd y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r cynllun gweithredu ynghlwm wrth yr adroddiad fel atodiad. Roedd y Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd yn goruchwyllo'r drefn o gyflawni'r cynllun gweithredu ynghyd â dyrannu'r Grant Tai Cymdeithasol gyda'r nod o hybu datblygiadau tai fforddiadwy. Amlygodd y Cynghorydd Thomas y cynnydd a wnaed mewn meysydd allweddol, gan gynnwys lansio'r gwasanaeth paru tai gwag a'r gwaith a wnaed i greu cyflenwad o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai *Passivhaus* sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a gwaith oedd yn mynd rhagddo ar safleoedd yn Ninbych a Phrestatyn, ynghyd â'r cynnydd a wnaed wrth baratoi datblygiadau yn y dyfodol.

Tynnodd y Cynghorydd Feeley sylw at yr adroddiad trylwyr a'r modd y diwygiwyd y Strategaeth er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â digartrefedd, gan gynnwys thema benodol ynglŷn â'r pryderon a'r cynlluniau pennaf yn hynny o beth. Roedd hi'n falch o ddweud y cyflwynwyd y cynllun Tai yn Gyntaf yn unol â'r cynllun a bod arian ar ei gyfer yn y cyllidebau presennol; roedd gwaith yn mynd rhagddo i greu llety dros dro am y tro cyntaf yn Sir Ddinbych a hynny yn Epworth Lodge yn y Rhyl a llety Gofal Ychwanegol Awel y Dyffryn yn Ninbych, a fyddai'n agor yn llawn ym mis Chwefror. Roedd y Strategaeth yn hyrwyddo cadernid ac annibyniaeth a hefyd yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Yn olaf, achubodd ar y cyfle i ddiolch i'r holl swyddogion am eu cyfraniadau.

Ychwanegodd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai nad oedd y gwaith o gyflawni'r Strategaeth ond megis dechrau, gan ystyried fod y Cyngor wedi'i mabwysiadu ym mis Rhagfyr 2020. Byddai'r rhan helaeth o'r camau gweithredu, fodd bynnag, yn

cael eu cyflawni mewn pryd er gwaethaf mân anawsterau mewn rhai meysydd, yn bennaf oherwydd Covid-19 a materion oedd a wnelont â'r Cynllun Datblygu Lleol. Soniodd hefyd am waith y Grŵp Strategol Tai a Digartrefedd yn cadw golwg ar gynnydd, a dywedodd ei bod yn galonogol bod y Pwyllgor yn craffu ar y cynllun gweithredu.

Dywedodd y Cadeirydd na nodwyd unrhyw broblemau o bwys gyda chynnydd y cynllun gweithredu. Yna gofynnodd i'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y mân broblemau a nodwyd, ar y sail bod y camau gweithredu eraill wedi'u cyflawni eisoes neu'n cadw at yr amserlen.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion y cwestiynau/sylwadau fel a ganlyn –

- Tai Teg oedd y gofrestr tai fforddiadwy a rhoddwyd sicrwydd y câi'r gofrestr ei hadolygu'n gyson a bod Cynghorwyr yn cael gwybod am unrhyw dai a oedd ar gael yn eu hardaloedd; roedd yno ddolen gyswllt at Tai Teg ar wefan y Cyngor
- adeg y cyfarfod roedd yno 168 o aelwydydd yn ddigartref yn y sir, gan gynnwys 218 o unigolion, a bu cynnydd yn nifer y bobl dan fygythiad o fynd yn ddigartref yn bennaf oherwydd diddymu'r moratoriwm a gyflwynodd Llywodraeth Cymru ar droi pobl allan yn ystod y pandemig Covid-19; roedd cryn waith yn mynd rhagddo er mwyn cefnogi pobl dan fygythiad o fynd yn ddigartref
- nid oedd gan y Cyngor ddyletswydd ond i ddarparu tai i drigolion Sir Ddinbych, ac nid oedd yn darparu tai i bobl o'r tu allan i'r sir a gysylltai â'r Cyngor ynglŷn â bod yn ddigartref - mewn achosion felly byddai'r Tîm Atal Digartrefedd: yn gweithio â'r awdurdod lleol lle bu'r bobl dan sylw'n byw ddiwethaf
- am nifer o resymau roedd achosion yn codi o bryd i'w gilydd lle byddai awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, yn darparu llety i bobl ddigartref o'r tu allan i'r sir, a holwyd a oedd yno anghydraddoldeb yn hynny o beth rhwng Sir Ddinbych a'r awdurdodau cyfagos, yn enwedig felly ynghylch defnyddio gwestai ar gyfer llety dros dro - dywedodd y Prif Weithredwr y cynhelid mwy o waith ymchwil ar y cyd â'r awdurdodau eraill er mwyn canfod y sefyllfa oedd ohoni, a chynigiodd y Cadeirydd bod yr aelodau'n derbyn adroddiad ynglŷn â hynny faes o law
- roedd oedran y bobl a gysylltai â'r Cyngor ynglŷn â bod yn ddigartref yn amrywio, ond roedd nifer arwyddocaol ohonynt yn iau na 35
- roedd yr aelodau wedi trafod y broblem o bobl yn byw mewn carafanau gwyliau'n ddiawdurdod yn y gorffennol, ac felly roedd hynny wedi'i gynnwys yn y cynllun gweithredu, ac amlygwyd hefyd y gwaith oedd eisoes wedi'i wneud a'r sylw a roes un o'r pwyllgorau craffu i'r mater. Er mwyn dal i fynd i'r afael â'r broblem roedd angen adnoddau sylweddol a dull gweithredu strategol/corfforaethol. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad mai ei wasanaeth ef a fyddai'n arwain y gwaith yn ôl pob tebyg, ac y byddai'n cwrdd â swyddogion allweddol yn y dyfodol agos gyda'r nod o fwrw ymlaen mewn modd priodol. Cytunodd i feithrin cyswllt â'r Cydlynnydd Craffu er mwyn canfod pryd y cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf ar y mater i bwyllgor craffu a phenderfynu a oedd angen darparu rhagor o wybodaeth neu gyflwyno adroddiad o'r newydd.
- roedd yr adroddiad yn amlygu effaith Covid-19 ar gynnydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd a chyfeiriodd y Cynghorydd Mark Young at effaith yr oedi gyda Nodyn Technegol 15 a'r Mapiau Llifogydd, a oedd hefyd y tu hwnt i reolaeth y

Cyngor. Rhoes sicrwydd, fodd bynnag, y byddai'r Grŵp Cynllunio Strategol yn dal ati â'i waith ac yn trosglwyddo'r wybodaeth angenrheidiol i'r Cyngor newydd

- dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â thai gwag at y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai yn gyntaf; dywedodd y Cynghorydd Tony Thomas ei fod yntau'n fodlon cynorthwyo a chadarnhaodd ei fod yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Gynghorwyr bob tri mis, gan gynnwys manylion ynghylch tai gwag mewn wardiau penodol.
- cytunodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad y byddai'n canfod a fedrai preswylwyr carafanau gwyliau gofrestru'r manau hynny fel eu cyfeiriad ar y gofrestr etholwyr, a dod â'r wybodaeth yn ôl i'r Pwyllgor
- cytunodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad y byddai hefyd yn ymchwilio i gais y Cynghorydd Meirick Davies yn Nhrefnant a darparu'r wybodaeth iddo'n uniongyrchol
- darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â Llys Awelon yn Rhuthun ynghyd â'r rhesymau dros oedi'r datblygiad, a ddigwyddodd yn bennaf oherwydd Covid-19 yn ogystal â materion eraill fel amodau cynllunio, llofnodi cytundeb y tendr a chynnydd ym mhrisiau defnyddiau adeiladu. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen yn unol â'r cynllun er gwaethaf y trafferthion a gafwyd, a bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi neilltuo rhagor o gyllid ar gyfer y cynllun. Byddai'r datblygiad yn mynd rhagddo'n gynnar iawn yn y Flwyddyn Newydd, yn ôl pob tebyg.

Wrth i'r Pwyllgor ddod â'r drafodaeth i ben –

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau uchod a darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn ystod y drafodaeth –

- (a) *cydnabod y gwaith a wnaed hyd yn hyn wrth gyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Tai a Digartrefedd, ynghyd â'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Strategaeth honno, a*
- (b) *gofyn am adroddiad arall ynglŷn â chynnydd y Cynllun Gweithredu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn hydref 2022.*

6 SAFONAU A PHERFFORMIAD Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD

Cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, yr adroddiad gan y Pen Llyfrgellydd (a ddosbarthwyd o flaen llaw) ynglŷn â pherfformiad y Cyngor wrth weithredu Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017 – 2020 (a ymestynnwyd hyd 2020 – 2021) a'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu llyfrgelloedd yn lleoedd a gyfrannai at les a chadernid unigolion a chymunedau.

Atgoffodd y Cynghorydd Thomas y Pwyllgor fod awdurdodau llyfrgelloedd yng Nghymru dan ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon i'w trigolion, a bod yr adroddiad yn cymharu perfformiad Sir Ddinbych â'r safon genedlaethol. Rhoes ganmoliaeth i'r gwasanaeth gwerthfawr a ddarperid yn Sir Ddinbych, gan nodi fod Covid-19 wedi cael effaith drom arno hefyd, ac

achubodd y cyfle i ddiolch i'r staff am eu gwasanaeth rhagorol ar adegau anodd; symudodd rhai aelodau o staff i swyddi dros dro ddechrau'r pandemig fel rhan o'r drefn o ffonio preswylwyr yn rhagweithiol. Roedd y data perfformiad ar gyfer 2020 – 21 yn cynnwys y deuddeg o hawliau craidd yr oedd Sir Ddinbych yn dal i'w bodloni, ynghyd â chwech o ddangosyddion ansawdd y cynhaliwyd hunanasesiad ar eu cyfer fel y nodwyd yn yr adroddiad. Darparwyd nifer o astudiaethau achos difyr ac addysgiadol ynglŷn â gweithgarwch y gwasanaeth.

Amlygodd y Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid lwyddiant y gwasanaeth llyfrgelloedd a'r modd yr addaswyd y ddarpariaeth yn unol â'r gwahanol lefelau rhybudd Covid a gofynion y byd cyfoes, gan nodi fod lawrlwythiadau digidol wedi cynyddu 166% yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Cyfeiriodd at ymdrechion aruthrol y gwasanaeth llyfrgelloedd a oedd wedi arwain at yr adroddiad cadarnhaol, gan gydnabod serch hynny fod angen llawer iawn o waith er mwyn meithrin cadernid cymunedau a'u gallu i gynnal eu hunain, a bod gan y gwasanaeth llyfrgelloedd ran allweddol i'w chwarae yn hynny o beth.

Yn ystod y drafodaeth croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad cadarnhaol a chydnabu mor bwysig oedd y gwasanaeth llyfrgelloedd i les pobl ac mor werthfawr oedd ei gyfraniad i gymunedau. Rhoes aelodau enghreifftiau o'r ddarpariaeth yn eu wardiau hwy, gan ganmol y cynlluniau a'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperid, gan gynnwys gwaith â phartneriaid, a rhoi diolch i'r holl staff.

Atebodd yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid a'r Pen Llyfrgellydd gwestiynau fel a ganlyn –

- yn unol â'r sefyllfa gyffredinol mewn canol trefi, nid oedd nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd wedi dychwelyd i'r lefelau a gafwyd cyn y pandemig, ac felly'r oedd hi ledled Cymru; roedd gwaith yn mynd rhagddo i ail-greu cysylltiadau ag ysgolion a dod â gwasanaethau partneriaid a gweithgareddau grŵp yn ôl er mwyn hybu niferoedd; cydnabuwyd hefyd fod angen i bobl fagu hyder er mwyn ailgydio mewn gwahanol weithgareddau a gwasanaethau yn y gymuned
- cydnabuwyd bod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn ymestyn y tu hwnt i waliau brics a mortar, a bod pobl yn defnyddio llyfrgelloedd mewn ffyrdd tra gwahanol bellach, fel y gwelwyd wrth i fwy o bobl ddefnyddio gwasanaethau'n ddigidol, gan gynnwys y Gwasanaeth Archebu a Chasglu
- roedd bagiau atgofion i helpu pobl â dementia ar gael i'w benthyg yn yr un modd â llyfrau a bu'r rhain yn boblogaidd dros ben; derbyniwyd cyllid yn ddiweddar i ddarparu jig-sôs i bobl oedd yn byw â dementia a hyderid y byddai'r rheiny hefyd yr un mor boblogaidd
- ar sail cyfraniadau ariannol Cyngor Tref Rhuddlan a Chyngor Dinas Llanelwy i'w llyfrgelloedd lleol, ynghyd â gwaith mewn partneriaeth a'r weledigaeth gytûn ar gyfer llyfrgelloedd yn gweithio mewn cymunedau, roedd y llyfrgelloedd hynny'n arbennig o lwyddiannus – awgrymodd y Cadeirydd y gallai fod yn werth ehangu'r dull o weithio mewn partneriaeth i gynorthwyo llyfrgelloedd lleol mewn trefi a chymunedau ledled y sir
- er bod llai o blant a phobl wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf yn 2021, roedd yn dal yn gynllun llwyddiannus dros ben ac roedd Sir Ddinbych yn dal i berfformio'n dda. Roedd yno ragor o waith ag ysgolion ar y gweill, gan ystyried mor bwysig oedd darllen yng nghyd-destun addysg a lles

- lleihawyd lefelau staff mewn ffordd a fyddai'n lleihau unrhyw effaith ar ddefnyddwyr y llyfrgelloedd a rhoddwyd sylw manwl i ymatebion cwsmeriaid; ni chafwyd unrhyw ymatebion negyddol. Byddai'r gwasanaeth yn dal i ddefnyddio'i adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol y gallai er budd y trigolion
- roedd nifer ymweliadau a benthyciadau'n cynyddu fesul dipyn ac roedd rhagor o wasanaethau'n bwriadu ailagor yn yr wythnos ddilynol wrth i'r cyfyngiadau lacio, ac roedd hi'n anodd cymharu â'r cyfnod cyn y pandemig gan fod cymaint o bethau wedi newid yn y ddwy flynedd aeth heibio a bod pobl yn ymddwyn yn wahanol; roedd pawb yn gyfrifol am helpu i feithrin hyder pobl i ailgydio â gweithgareddau yn y gymuned, a'r neges bendant oedd bod llyfrgelloedd yn fannau diogel a chroesawgar i ymwelwyr.

Bu'r Prif Weithredwr yn falch o glywed y farn gadarnhaol o'r gwasanaeth llyfrgelloedd a gosododd her ar gyfer y dyfodol o ganfod beth yn rhagor y gellid ei wneud i ddiogelu'r cyfleusterau hyn er mwyn gwella bywydau trigolion. Wrth gloi, talodd y Cadeirydd deyrnged unwaith eto i'r gwasanaeth ardderchog a ddarperid a gwaith yr holl staff.

Bu i'r Pwyllgor –

BENDERFYNU, yn amodol ar y sylwadau uchod –

- cydnabod ymdrechion llyfrgelloedd y sir i addasu i'r pandemig Covid-19 a darparu gwasanaeth ardderchog i drigolion Sir Ddinbych;*
- derbyn a nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn ôl Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2020/21 ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau yn ystod 2021/22, a*
- gofyn am adroddiad arall ynghylch perfformiad y Gwasanaeth yn ôl Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2021/22 i ddod gerbron y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023.*

Ar yr adeg hon (11.17 am) cymerodd y pwyllgor egwyl fer.

7 DEFNYDDIO LLAI O BLASTIGAU UNTRO A LLEIHOU CARBON YN Y GWASANAETH PRYDAU YSGOL

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon, gan gynnwys y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, y cyntaf yn dal y portffolio ar gyfer y maes gwasanaeth dan sylw a'r ail yn dal y portffolio ar gyfer yr amgylchedd, ynghyd â'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Pen Rheolwr Arlwygo a Glanhau. Estynnwyd croeso cynnes hefyd i ddau ddisgybl o Gyngor Myfyrwyr Ysgol Dinas Brân a fyddai'n cael eu gwahodd i ofyn cwestiynau am y mater.

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad gan y Pen Rheolwr Arlwygo a Glanhau, a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed, a'r heriau a gododd, wrth fynd ati i leihau plastig untro a charbon yn y Gwasanaeth Arlwygo Ysgolion, yn ogystal ag amcangyfrif o'r costau cysylltiedig. Wrth osod y cyd-destun dywedodd fod yr adroddiad yn seiliedig ar y ddarpariaeth gyfredol ac y byddai gweithredu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i'r holl blant mewn ysgolion cynradd yn cael effaith arwyddocaol ar y gwasanaeth.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan gyfeirio at y materion a ganlyn –

- roedd dull ariannu cyfredol y gwasanaeth arlwygo ysgolion yn dibynnu ar incwm o werthu diodydd mewn ysgolion uwchradd, a werthid mewn poteli plastig untro yn bennaf. Roedd y dewisiadau ar gyfer rhoi'r gorau i werthu diodydd mewn poteli plastig untro'n cynnwys (1) peidio â gwerthu unrhyw ddiodydd a bod y disgyblion yn dod â'u diodydd eu hunain i'r ysgol, a fyddai'n creu diffyg o £220,000, neu (2) gwerthu diodydd wedi'u tywallt i gynwysyddion y gellid eu hailddefnyddio
- Arbrefwyd â dewis 2 yn Ysgol Glan Clwyd ond oherwydd y trafferthion a gafwyd a'r effaith ariannol, fel y nodwyd yn yr adroddiad, daeth y gwasanaeth i'r casgliad na ellid rhoi'r dull ar waith yn yr holl ysgolion uwchradd oherwydd yr heriau ymarferol, prinder lle mewn rhai ysgolion a gwastraff ar ffurf cwpanau plastig na ellid eu hailgylchu; nid oedd yn ariannol ymarferol chwaith
- roedd y gwasanaeth wedi cael hwyl ar leihau plastig untro mewn meysydd eraill ac wedi lleihau swm y deunydd pecynnu bwyd a gâi ei brynu a'i daflu. Bu cynnydd, fodd bynnag, ym mhrisiau deunyddiau amgen y gellid eu hailgylchu ac roedd pryder nad oedd y myfyrwyr yn ailgylchu'r deunyddiau hynny. Rhoddwyd y gorau i ddefnyddio cyllyll a ffyrac plastig lle bo modd a châi bwyd ei weini ar blatiau, ond roedd llawer o ysgolion heb ystafelloedd bwyta digon mawr i'r disgyblion
- camau gweithredu penodol y gwasanaeth wrth gyflawni'r swyddogaeth arlwygo heb ddefnyddio llawer o garbon, a heriau yn y dyfodol wrth wella cyfraddau ailgylchu ymysg disgyblion, swydd newydd i hyrwyddo newid ymddygiad, a thrafodaethau ynglŷn â'r posibilrwydd o gael llai o gig coch ar fwydlenni, a oedd yn bwnc llosg.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts ymrwymiad y gwasanaeth i leihau plastig untro a charbon er gwaethaf yr heriau a gododd, a'r cynnydd a wnaed mewn nifer o feysydd. Cyfeiriodd eto at effaith ariannol drom y camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad - £220,000 y flwyddyn wrth roi'r gorau i werthu diodydd mewn ysgolion uwchradd, a £197,000 y flwyddyn wrth werthu diodydd wedi'u tywallt i gwpanau y gellid eu hailddefnyddio. Byddai'n rhaid gwneud iawn am y diffyg hwn drwy gynyddu'r cymhorthdal refeniw, codi prisiau prydau ysgol neu drosglwyddo'r costau i'r ysgolion. Byddai darparu prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd hefyd yn cynyddu ôl troed carbon y gwasanaeth. Soniwyd y câi pob ysgol ei thrin yn gyfartal o dan y dull ariannu presennol, ac oni ddymunai ysgol unigol fabwysiadu dull gwahanol (a gwneud iawn am unrhyw ddiffyg yn y gyllideb) byddai'r dull cyson hwnnw'n aros yn ei le.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Brian Jones at waith a wnaed yn y gorffennol gyda'r nod o leihau plastig untro a phwysleisiodd fod angen i gyllidebau ariannol fod yn gyson â'r

blaenoriaethau newid hinsawdd, a bod angen dod o hyd i ffyrdd dyfeisgar o fynd i'r afael â'r problemau a godai. Croesawodd gyfranogiad y ddau fyfyrwr o Ysgol Dinas Brân a'r gwaith oedd yn mynd rhagddo ar y cyd ag ysgolion ac eraill wrth geisio dod o hyd i ddulliau dyfeisgar o symud cynlluniau rhag newid hinsawdd ymlaen.

Gwahoddodd y Cadeirydd y myfyrwyr o Ysgol Dinas Brân i ofyn cwestiynau, a gan gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chaffael cynaliadwy fe holont pam nad oedd y gwasanaeth yn defnyddio pethau gwell na nwyddau plastig untro yn unol â'r Ddeddf, a faint o wastraff ychwanegol a gynhyrchwyd drwy ddarparu plastig untro wrth fodloni'r galw gan fyfyrwyr. Holodd y myfyrwyr hefyd ynghylch gwir gostau defnyddio plastig o gymharu â deunyddiau amgen ecogyfeillgar, a heriont y cyfeiriad ym mharagraff 10.2 o'r adroddiad ynglŷn ag awydd ysgolion i newid, ar sail ymrwymiad parhaus y Cynghorau Ysgol. Mewn ymateb bu i'r Aelodau Arweiniol a swyddogion –

- esbonio'r graddfeydd amser llym ar gyfer gweini prydau bwyd yn yr wyth o ysgolion uwchradd ynghyd â'r prinder lle a oedd yn cael effaith arwyddocaol ar y modd y darperid y gwasanaeth, gan hefyd geisio bodloni hoffterau'r disgyblion a sicrhau bod y gwasanaeth yn ariannol hyfyw
- ymhelaethu ynghylch y camau a gymerwyd i ddefnyddio llai o ddeunydd pecynnu plastig untro ar frechdanau a phasta, a'r heriau o ddefnyddio cylllyll a ffyrcc dur a phlatiau gan ystyried fod amser yn gyfyng a bod dim digon o le mewn rhai ysgolion, yn ogystal â'r ffaith nad oedd rhai disgyblion yn dychwelyd eu cylllyll a ffyrcc ar bob achlysur a bod hynny'n creu costau, a bod deunyddiau amgen fel bambŵ yn llai fforddiadwy i ddisgyblion
- amrywiau swm y gwastraff o un ysgol i'r llall, ac nid oedd rhai disgyblion yn ailgylchu unrhyw blastig untro; ni chât llestri ac ati eu dychwelyd bob tro ac weithiau roedd disgyblion yn eu taflu (ar y llawr ar brydiau), ac nid oedd hynny o fewn rheolaeth y gwasanaeth. Roedd angen addysgu disgyblion a newid ymddygiad yn hynny o beth er mwyn sicrhau y câi'r gwastraff a gynhyrchid wrth ddarparu'r gwasanaeth ei waredu yn y ffordd orau Sicrhawyd cyllid i ariannu swydd newydd i hyrwyddo newid ymddygiad a byddai gweithio â'r gwasanaeth arlwygo ac ysgolion yn cael blaenoriaeth
- esboniodd fod paragraff 10.2 yn cyfeirio at ansicrwydd a oedd gan ysgolion awydd cyson/ar y cyd i newid i ddull newydd, a gododd yn sgil trafodaeth gyffredinol mewn cyfarfod penaethiaid clwstwr ynglŷn â gwerthu diodydd. Roedd penaethiaid wedi mynegi pryderon ynglŷn â rhoi'r gorau i werthu sudd ffrwythau (gan ystyried y buddion iechyd) a defnyddio caniau yn lle plastig (gan ystyried nad oedd modd eu cau ar ôl eu hagor a bod damweiniau'n gallu digwydd â chaniau wedi rhwygo ar gae'r ysgol). Bu Ysgol Glan Clwyd yn awyddus i gynnal yr arbrawf gwerthu diodydd ond pan gyflwynwyd y drefn newydd ni ddymunai'r rhan helaeth o ddisgyblion gymryd rhan
- cydnabuwyd mai gwerthu diodydd mewn ysgolion oedd y broblem fwyaf i'r gwasanaeth o ran plastig untro, ac er mai'r ffordd symlaf o fynd i'r afael â hynny oedd rhoi'r gorau i werthu diodydd mewn ysgolion, byddai goblygiadau mawr yn deillio o gymryd y cam hwnnw, nid yn unig oherwydd y diffyg yn y gyllideb y byddai'n rhaid gwneud iawn amdano, ond hefyd yng nghyd-destun iechyd a ffactorau eraill sydd efallai'n anhysbys, ac roedd angen trafod y mater yn

wleidyddol ac ymgynghori â'r holl ysgolion er mwyn dod i gytundeb ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen

- wrth ehangu'r gwasanaeth er mwyn bodloni'r gofynion i ddarparu prydau ysgol am ddim i'r holl ddisgyblion cynradd byddai'n anorfod y byddai ôl troed carbon y gwasanaeth yn tyfu hefyd, ac roedd hynny'n her sylweddol.

Yn ystod trafodaeth drylwyr bu'r aelodau'n craffu ar yr adroddiad yn fanwl a chawsant gyfle i ofyn cwestiynau a thrafod amryw agweddau ar yr adroddiad â'r Aelodau Arweiniol a'r swyddogion. Rhoes y Cadeirydd ganiatâd hefyd i fyfyrwyr Ysgol Dinas Brân ac eraill nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor ofyn cwestiynau dilynol. Cydnabu'r Pwyllgor yr heriau wrth geisio cydbwysu anghenion y gwasanaeth a'r ddarpariaeth prydau ysgol â blaenoriaethau yng nghyd-destun yr hinsawdd a'r ecoleg, yn enwedig felly'r goblygiadau ariannol a'r angen i newid ymddygiad er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hynny.

Bu'r drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion canlynol –

- yn ddelfrydol defnyddid cyllyll a ffyrç dur ond roedd cyfyngiadau ar ddarparu'r gwasanaeth oherwydd prinder lle, diffyg cyfleusterau a chadeiriau mewn ysgolion, ynghyd â hyd yr amser cinio a'r ffaith bod miloedd o gyllyll a ffyrç dur yn mynd ar goll bob blwyddyn, gan gynnwys rhai a daflwyd yn amhriodol; er y byddai modd defnyddio cyllyll a ffyrç bambw roedd y rheiny'n llawer drutach na rhai plastig gyda phob cyllell a fforç yn costio tua 10-15c yn fwy, a byddai'n rhaid trosglwyddo'r gost i'r cwsmeriaid
- roedd gobaith y gallai'r Cyngor wneud mwy yn y dyfodol wrth gydweithio ag ysgolion i wella ymddygiad, gyda'r nod o sicrhau y câi'r holl ddeunydd a gynhyrchid o brydau ysgol ei ailgylchu, ac er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sbwriel
- roedd dull ariannu'r gwasanaeth arlwyo'n seiliedig ar yr holl ysgolion gyda'i gilydd ac felly byddai newid y drefn mewn un ysgol yn cael effaith ariannol ar bob un o'r lleill; pe byddai un ysgol yn rhoi'r gorau i werthu diodydd, er enghraifft, byddai'n rhaid rhannu'r diffyg yn y gyllideb yn gyfartal ymysg yr holl ysgolion, ac felly byddai angen i'r holl ysgolion gytuno cyn cyflwyno dull o'r fath
- bu gobaith y byddai'r arbrawf gwerthu diodydd yn Ysgol Glan Clwyd yn llwyddo ac y byddai modd ei gyflwyno ymhob ysgol uwchradd, ond yn anffodus ni fu'r arbrawf yn llwyddiant ac fe greodd broblemau eraill
- rhoddwyd sicrwydd fod gan bob ysgol awydd i geisio mynd i'r afael â phlastig untro a lleihau carbon ac er bod y gwasanaeth wedi gwneud cynnydd yn hynny o beth mewn meysydd fel pecynnu a gwaredu gwastraff, roedd yr heriau mewn ysgolion yn anodd eu goresgyn mewn gwirionedd, ac roedd hi'n anodd dod dros goblygiadau ariannol y newidiadau hynny
- cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â'r sefyllfa genedlaethol, gan ystyried fod newid hinsawdd yn bwnc byd-eang, a holwyd a ddylai'r Cyngor wneud cais i Lywodraeth Cymru weithio ag awdurdodau lleol ledled Cymru a darparu'r cyllid angenrheidiol i gyflwyno newid sylweddol, yn enwedig gan ystyried yr heriau ariannol yr oedd llywodraeth leol eisoes yn eu hwynebu a'r gwasgfeydd ar ysgolion a gwasanaethau eraill. Cynigiodd y Cadeirydd y byddai cysylltu â Llywodraeth Cymru'n ffordd o symud y mater yn ei flaen.

- roedd y rhan helaeth o ysgolion yn gweini prydau bwyd i wahanol ddisgyblion ar adegau gwahanol, ac o ganlyniad i Covid-19 wedi defnyddio rhannau eraill o'r ysgol heblaw am y ffreutur, a oedd wedi bod yn her barhaus
- diystyrwyd cyflwyno blaendal ar gyfer cylyll a ffyrc ailddefnyddadwy a chynwysyddion diodydd, oherwydd y gwaith gweinyddol a fyddai'n deillio o hynny a'r perygl o draws-heintio
- nid oedd rhai ysgolion yn caniatáu caniau ac ni fyddai newid o gynwysyddion plastig untro i ganiau'n ddelfrydol beth bynnag, gan mai cynwysyddion untro oedd y rheiny hefyd; nid oedd codi arwyddion ac ati i nacáu taflu sbwriel yn atal y broblem o reidrydd
- esboniwyd fod angen cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â bwyd a maeth, a bod diffyg cyfleusterau a phrinder lle i hunanweini bwyd ynghyd â pheryglon traws-heintio wrth ddefnyddio cynwysyddion ailddefnyddadwy, a chadarnhawyd na fu unrhyw wahaniaeth yn yr incwm a gynhyrchwyd wrth werthu diod ar ôl rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ffynhonnau dŵr yn yr ysgolion
- canfu gwaith ymchwil y dylai rheolwyr arlwygo sy'n ceisio lleihau allyriadau carbon fod yn ystyried mabwysiadu dulliau gwaredu gwastraff nad ydynt yn defnyddio llawer o garbon yn ogystal â gweini llai o gig coch - byddai'n rhaid cael trafodaeth wleidyddol am y cig gan y byddai hynny'n benderfyniad arwyddocaol i'r sir
- rhoddwyd sicrwydd y cymerwyd camau i leihau plastig untro a bod cynnydd wedi'i wneud, a chytunwyd y gallai newidiadau bach a graddol wneud gwahaniaeth mawr pe byddai pawb yn ymdrechu ar y cyd
- roedd dull ariannu cyfredol y gwasanaeth yn seiliedig ar y system yn ei chyfanrwydd ac yn trin pob ysgol yn gyfartal beth bynnag ei maint, a phe dymunai Ysgol Dinas Brân fabwysiadu dull gweithredu gwahanol a'i bod yn barod i wneud iawn am y diffyg yn y gyllideb, roedd gan yr ysgol hawl i wneud hynny a byddai'r Cyngor yn cynnig pob cymorth y gallai yn hynny o beth.

Siomwyd y Cynghorydd Graham Timms o glywed ymateb y Pwyllgor ynglŷn â gofyn i Lywodraeth Cymru arwain ar y mater, a dywedodd y dylai'r Cyngor fod yn mynd i'r afael â'r sefyllfa. Holodd a wnaed unrhyw waith i ddatblygu a phennu costau gwasanaeth a fyddai'n cael gwared â phlastig untro ac yn lleihau carbon, wedi'i ariannu a'i weithredu gan y Cyngor, ynghyd â gwaith i addysgu plant ynglŷn â'r ymddygiad gorau. Rhybuddiodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts rhag llunio cynllun gwasanaeth am y tro, gan ystyried nad oedd hi'n hysbys beth fyddai goblygiadau'r gofyn i ddarparu prydau ysgol am ddim i'r holl ddisgyblion cynradd yn y dyfodol, ac roedd wedi nodi bod yr adroddiad yn ymdrin â'r sefyllfa fel yr oedd hi ac yn amodol ar elfennau ansicr yn y dyfodol fel ailstrwythuro posib a buddsoddiadau. Cydnabu myfyrwyr Ysgol Dinas Brân hefyd y sefyllfa ariannol oedd ohoni, ond gan bwysleisio fod newid hinsawdd hefyd yn sefyllfa'r oedd angen mynd i'r afael â hi. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai argymhelliad y Pwyllgor i geisio cymorth gan Lywodraeth Cymru gynnwys yr arbrawf gwerthu diodydd yn Ysgol Glan Clwyd fel enghraifft o'r anawsterau a wynebwyd, ac awgrymodd y gallai Ysgol Dinas Brân ddymuno cysylltu â Llywodraeth Cymru eu hunain er mwyn mynegi eu siom ynglŷn â phrinder cyllid i symud pethau yn eu blaenau.

Er nad oedd cynllun presennol i ddatrys y problemau a godwyd, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth fod yno ymrwymiad i ddal ati. Gan ystyried y gofynion

newydd i ddarparu prydau ysgol am ddim roedd angen i'r gwasanaeth roi blaenoriaeth i gyflawni'r gwaith hwnnw yn y deunaw mis nesaf, ac er y gallai gymryd mwy o amser na hynny i gyflawni nodau'r gwasanaeth i leihau carbon a phlastig untro, rhoddwyd sicrwydd fod pawb yn ymrwymo i ddatrys y broblem. Wrth ddod â'r drafodaeth i ben ailgyflwynodd y Cadeirydd ei gynrig, a eiliwyd gan y Cyngorydd Ellie Chard, ac ar sail pleidlais bu i'r Pwyllgor –

BENDERFYNU, yn amodol ar y sylwadau a phryderon uchod, yn gofyn i'r Cabinet ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ran y Cyngor gan ofyn iddo –

- (a) *weithio ag awdurdodau lleol ledled Cymru mewn ymdrech i leihau a rhoi terfyn ar ddefnyddio plastig untro a nwyddau na ellid eu hailgylchu wrth gyflenwi prydau ysgol, eu paratoi a'u gweini, a*
- (b) *darparu adnoddau ariannol digonol i'r holl awdurdodau lleol fel y gallant gyflawni'r amcanion uchod, hwyluso cynlluniau lleihau carbon yn y Gwasanaethau Arlwyo Ysgolion a sicrhau y gellid darparu gwasanaeth prydau ysgol cynaliadwy.*

Diolchodd y Cadeirydd i fyfyrwyr Ysgol Dinas Brân am eu cyfraniad a'u cwestiynau heriol, a hefyd i'r holl aelodau am eu cyfraniad hwythau i'r drafodaeth, yn enwedig felly'r Cyngorydd Graham Timms, ac i'r swyddogion am ddod â'r adroddiad gerbron y Pwyllgor ac ateb cwestiynau yn ei gylch.

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddsbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â materion perthnasol.

Trafodwyd y materion canlynol –

- roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi rhoi eitem ar raglen y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 17 Mawrth ynglŷn ag Absenoldebau a Throsiant Staff yn Sir Ddinbych yn ystod 2020/21 a 2021/22 hefyd wedi penderfynu symud y ddau o eitemau addysg oedd ar raglen 17 Mawrth i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf, fel y gallai'r Pwyllgor newydd eu hystyried yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai
- roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu eisoes wedi penderfynu na ddylai Pwyllgorau Craffu gynnal unrhyw gyfarfodydd yn ystod y cyfnod cyn etholiad (o 18 Mawrth ymlaen) oni fyddai'n rhaid cael cyfarfod i drafod mater brys - felly, y cyfarfod olaf a drefnwyd yn ystod cyfnod cyfredol y Cyngor oedd yr un ar 17 Mawrth
- anogwyd aelodau a ddymunai graffu ar bynciau penodol yng nghyfnod nesaf y Cyngor i gyflwyno ffurflenni cynrig yn syth i'r Cydlynnydd Craffu.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys yr eitemau y gofynnwyd amdanynt yn ystod y cyfarfod a'r diwygiadau a nodwyd uchod, cadarnhau rhaglen waith y Pwyllgor fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

9 GWYBODAETH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Soniodd y Cadeirydd am gyfarfod â David Wilson o Archwilio Cymru lle trafodwyd swyddogaeth Pwyllgorau Craffu wrth ymchwilio i faterion fel absenoldebau staff, cadw staff a recriwtio. Byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i gyflawni ei swyddogaeth yn hynny o beth yn y cyfarfod ym mis Mawrth, ac anogwyd yr holl aelodau i fod yn bresennol a chynnig her effeithiol.

Dywedodd y Cynghorydd Peter Scott y byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogaeth Glannau Afonydd yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 10 Mawrth 2022.

Roedd y Cynghorydd Hugh Irving yn cynrychioli'r pwyllgorau craffu ar Fwrdd Prosiect Adeiladau'r Frenhines, a dywedodd fod y sefyllfa'n dal yn heriol a bod swyddogion yn gweithio'n ddiwyd i ddatrys y problemau annisgwyl sy'n parhau. Cyflwynid adroddiad ynglŷn â chynnydd y prosiect i'r Cabinet ym mis Chwefror.

Rhoes y Prif Weithredwr ganmoliaeth i safon y drafodaeth a'r craffu trylwyr yn ystod y cyfarfod, ac i gyfraniad myfyrwyr Ysgol Dinas Brân at y broses, gan nodi eu bod wedi hybu dealltwriaeth y Pwyllgor o gymhlethdod y sefyllfa.

PENDERFYNWYD *derbyn a nodi sylwadau'r cynrychiolwyr hynny a fu'n bresennol mewn amryw gyfarfodydd ar ran y Pwyllgor.*

Wrth ddod â'r cyfarfod i ben diolchodd y Cadeirydd i swyddogion cymorth y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 pm.